Ysgol Glanrafon,
Yr Wyddgrug.

ADRODDIAD BLYNYDDOL
Y
LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI.

GOVERNORS' ANNUAL REPORT
TO
PARENTS.

2017 – 2018.

ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI - 2017-2018

Pleser yw cael cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr am y flwyddyn addysgol 2017 – 2018 i'ch sylw caredig, gan fawr obeithio y byddwch yn gweld ei gynnwys yn fuddiol a diddorol. O ganlyniad i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion a ddaeth i rym ar Fai 4ydd. 2013, nid yw'n ofynnol bellach i Gyrff Llywodraethol gynnal cyfarfod blynyddol i rieni onibai bod 10% o'r holl rieni yn mynegi diddordeb i gynnal cyfarfod i drafod unrhyw fater yn ymwneud â'r ysgol. Cysyllter â'r ysgol erbyn dydd Llun, Tachwedd 12fed os oes gennych ddiddordeb mewn cynnal cyfarfod os gwelwch yn dda.

1. SWYDDOGION.
Clerc y Corff Llywodraethol yw Gareth Watson. Y cadeirydd yw Vanessa Leach a'r is gadeirydd eto i'w ethol. Os ydych angen cysylltu ag un o'r swyddogion hyn ar unrhyw adeg, dylid gwneud hynny trwy'r ysgol yn unig mewn llythyr neu trwy alwad ffôn (01352 700384)

2. RHESTR Y LLYWODRAETHWYR.
Gweler Atodiad A.

3. GWARIANT YR ARIAN A DDERBYNNIR GAN YR AWDURDOD ADDYSG LLEOL.
Gweler Atodiad B (a).

ARIAN GAD/GEY.
Gweler Atodiad B(b) am Gynllun Gwariant arian GAD a GEY am y flwyddyn ariannol 2017 – 2018. Unig gostau a chynhaliaeth y Llywodraethwyr oedd £200 a ddefnyddiwyd at gostau'r clerc am 2017-2018.
Yn ogystal â chyllideb flynyddol yr ysgol (gweler Atodiad B(a) am y cyfansymiau), cyfrannodd Pwyllgor Ffrindiau Glanrafon yn hael trwy brynu offer digidol a thalu am eiriaduron i ddisgyblion Blwyddyn 6. Diolchir i Bwyllgor y Ffrindiau am eu haelioni bob amser.
Defnyddiwyd incwm o'r Clybiau Ben Bore ac Ar Ôl Ysgol i dalu am amrywiaeth eang o offer a deunyddiau ychwanegol nad yw cyllideb arferol yr ysgol yn ddigonol i dalu amdanynt.

4. CYFARFOD BLYNYDDOL 2017.
Ni chynhaliwyd cyfarfod i drafod Adroddiad 2016-2017 am nad oedd unrhyw riant wedi mynegi diddordeb i gynnal un.

5. LLAWLYFR YR YSGOL.
Adolygwyd y llawlyfr am 2017-2018 yn unol â'r gofynion statudol, ac mae copiau o'r llawlyfr cyfredol ar gael yn yr ysgol bob amser.

6. RHESTR O DDYDDIADAU'R TYMHORAU AC AMSERAU'R SESIYNAU.
Gweler Atodiad C.

7. CYSYLLTIADAU'R YSGOL Â'R GYMUNED.
Trosodd, gwelir crynodeb o weithgareddau cymunedol yr ysgol yn ystod 2017-2018:

- Fel bob amser, bu'r disgyblion yn dathlu dyddiau nodedig ag iddynt gysylltiadau Cymreig – megis Diwrnod Owain Glyndŵr, Diwrnod Santes Dwynwen a Gŵyl Ddewi (Eisteddfod Lenyddol).
- Dathlu Diwrnodau Cofio T.Llew Jones a Roald Dahl a Diwrnod y Llyfr.
- Cynhaliwyd amrywiaeth o weithgareddau'n gysylltiedig â'r Siarter Iaith yn ystod y flwyddyn – megis Diwrnod Sut mae?/Shw mae?, Disgo Dydd Miwsig Cymru ac amrywiaeth o weithgareddau diddorol yn gysylltiedig â'r Wythnos Cymru Cŵl pan oedd pob adran ddysgu yn canolbwyntio ar wahanol agweddau o fywyd Cymru, ynghyd â Râs yr Iaith.
- Gwahoddwyd y rhieni i wasanaeth diolchgarwch Uned y Blynyddoedd Cynnar yn neuadd yr ysgol, a daeth Mrs Nesta Gibson i annerch disgyblion Blynyddoedd 1 – 6 yn eu gwasanaeth hwy yn y prynhawn yng Nghapel Bethesda. Cafwyd cwmni aelodau o Gymdeithas y Pnawn yn y gwasanaeth hwn.
- Ymunodd y rhieni â ni yng nghyflwyniadau Nadolig holl ddisgyblion yr ysgol. Effeithiodd tywydd garw'r eira ar weithgareddau'r Nadolig, ond gyda rhai addasiadau, llwyddwyd i'w cynnal. Bu i'r sioe Barti Ddu, berfformiwyd gan ddisgyblion C.All. 2 gael ei gohirio hyd at fis Ionawr.
- Cynrychiolwyd yr ysgol yng ngwasanaeth Nadolig y Cymdeithasau Cymraeg yng nghapel Bethesda, a bu'r disgyblion yn canu yn seremoni troi goleuadau Nadolig y dref ymlaen ac yng Nghartref Henoed y Bwthyn.
- Trwy gydol y flwyddyn, cyfranogodd y disgyblion yn helaeth yng ngweithgareddau'r Urdd yn lleol a chenedlaethol trwy gyfrwng ymweliadau â'r gwersylloedd, cystadlaethau mewn amrywiaeth o feysydd a'r Eisteddfod. Cynrychiolwyd yr ysgol mewn chwe cystadleuaeth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ar faes y sioe yn Llanelwedd.
- Bu nifer fawr o'n disgyblion yn cefnogi ac yn cystadlu gyda chryn lwyddiant yn Eisteddfod Treuddyn.
- Bu disgyblion Blwyddyn 4 yn gwrando ar berfformiad offerynnol gan Gerddorfa Genedlaethol Cymru yn Llandudno a daeth cynrychiolaeth o staff offerynnol peripatetig y sir i roi cyflwyniad cerddorol i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2.
- Mae'r disgyblion wedi elwa o ymweliadau gan siaradwyr gwadd, gweithdai amrywiol, ymweld â mannau o ddiddordeb yn lleol ac ehangach, a chynyrchiadau dramatig, a hynny i gyd yn fodd i gyfoethogi eu profiadau yn ystod y flwyddyn.
- Cafodd y rhieni wahoddiad i ymuno â ni mewn prynhawn ffarwelio gyflwynwyd gan ddisgyblion Blwyddyn 6.
- Bu'r ysgol yn weithgar iawn yn codi arian at wahanol elusennau ac achosion da yn ystod y flwyddyn, sef fel a ganlyn – Bore Coffi McMillan - £484, Plant mewn Angen - £560, Chwilio ac Achub Mynydd Gogledd Ddwyrain Cymru - £911,Cywion Pasg Nyrsys McMillan - £330, Read to Feed - £1,214. Cyfanswm = £3,499. Mae ein diolch yn fawr i bawb am eu haelioni bob amser.
- Galwodd Aled Huws a'i dîm o Radio Cymru yma yn ystod ei Daith Feicio o gwmpas Cymru tra'n codi arian tuag at Blant mewn Angen.
- Bu cynrychiolwyr o elusen yr N.S.P.C.C yma'n cynnal sgyrsiau i holl ddisgyblion yr ysgol, a gweithdai i ddisgyblion C.All. 2.

- Bu'r ysgol yn llwyddiannus i gaffael grant oddi wrth Gyngor y Celfyddydau i'n galluogi i ddatblygu prosiect ym maes celfyddyol, a daeth Manon Elis Jones i weithio yn wythnosol gyda disgyblion Blwyddyn 2 ar brosiect yn ymwneud â'u Cynefin. Cafodd rhieni'r disgyblion gyfle i ddod i weld y gwaith yn ystod pnawn cymdeithasol.
- Ceir cysylltiad agos rhwng yr ysgol hon ac ysgolion Cymraeg eraill y sir gan gynnwys Maes Garmon. Yn ystod y flwyddyn, parhaodd yr ysgol i gydweithio ag Ysgol Bryn Tabor, ei hysgol bartner, yn arbennig mewn gweithgareddau o ddatblygiad proffesiynol.
- Mae gan yr ysgol gysylltiad agos a pherthynas dda gyda'r heddlu yn lleol, ac ymwela'r swyddog cyswllt yn dymhorol i roi sgwrs i ddisgyblion Blynyddoedd 2,4 a 6.
- Defnyddiwyd yr ysgol gan Gapeli Bethesda ac Ebenezer, Consortiwm Addysgol Gogledd Cymru (GwE), Mudiad Ysgolin Meithrin a phwyllgorau Cylch yr Urdd yn ystod y flwyddyn.
- Mae'r ysgol yn cyfrannu'n fisol i Bapur Fama, papur bro Cymraeg yr ardal, a cheir cyfeiriadaeth gyson yn y wasg Saesneg leol at yr ysgol.
- Mae gan yr ysgol berthynas weithio dda iawn gyda gwahanol asiantaethau addysgol o fewn y sir ynghyd â chonsortiwm GwE.
- Bu aelodau o Gyngor yr Ysgol ar ymweliad â Siambr y Cyngor a chael cyflwyniad i waith y Cyngor gan y cadeirydd.
- Bu disgyblion Blwyddyn 5 yn ymwneud â phrosiect Menter yr Ifanc yn ystod y flwyddyn.
- Yn ystod y flwyddyn, aeth gwahanol ddisgyblion/adrannau ar ymweliadau addysgol i amrywiol gyrchfannau megis Blitz Hill, Space Port a Byd y Beatles, Fferm Park Hall, Lerpwl a'r Sŵ Fôr yn Y Rhyl.
- Cynhaliwyd Ffair Lyfrau Saesneg dan nawdd Scholastics ar ddiwedd Tymor yr Hydref gan lwyddo i gaffael gwerth mwy na £500 o lyfrau Saesneg i'r ysgol.
- Cynhaliwyd amrywiaeth o glybiau, yn arbennig ym maes chwaraeon wedi a chyn oriau ysgol yn ystod y flwyddyn. Trwy garedigrwydd Theatr Clwyd, cynhaliwyd Clwb Drama ar gyfer disgyblion Blynyddoedd 3 a 4.
- Yn ystod y flwyddyn, enillodd yr ysgol Gam 5 o wobr Ysgolion Iach, a chyflwynwyd y wobr i'r ysgol mewn dathliad arbennig ar ddiwedd y flwyddyn.
- Cynhaliwyd Wythnos Ewropeaidd yn yr ysgol pan fu'r dosbarthiadau yn canolbwyntio ar wlad Ewropeaidd wahanol a bu cyfle i'r disgyblion wisgo gwisg oedd yn cynrychioli'r wlad a astudiwyd ganddynt yn ystod yr wythnos.
- Mae cynrychiolwyr o fudiad Agathos wedi bod yn cynnal gwasanaethau'n rheolaidd gyda holl ddisgyblion yr ysgol yn ystod y flwyddyn, a chynnal Clwb Ribidires yn ystod yr awr ginio yn wythnosol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 2.

8. <u>CANLYNIADAU ASESIADAU STATUDOL Y CYFNOD SYLFAEN A CHYFNOD ALLWEDDOL 2 – HAF 2018.</u>
Gweler Atodiad CH

9. <u>TARGEDAU A OSODWYD GAN YR YSGOL AR GYFER CANLYNIADAU 2018 a 2019.</u>
Gweler Atodiad D.

10. <u>GWYBODAETH AM BRESENOLDEB 2017-2018.</u>
Gweler Atodiad DD.

11. <u>DARPARIAETH CHWARAEON YR YSGOL.</u>

Pêl droed- Cynhaliwyd clybiau pêl droed wedi oriau ysgol ar gyfer disgyblion y ddau Gyfnod Allweddol ar bnawniau Llun a Iau.
Bu tîmau o'r ysgol yn cystadlu mewn amrywiol ornestau yn ystod y flwyddyn gan gynnwys twrnament yr Urdd i fechgyn a merched, cynghrair Bwcle/Wyddgrug a chystadlaethau Tom Roberts a Ron Bishop. Fel rhan o weithgareddau Wythnos Cymru Cŵl, bu tîmau o'r ysgol yn cymryd rhan mewn twrnament ar gyfer ysgolion Cymraeg Sir y Fflint.
Pêl rwyd - Cynhaliwyd clwb wythnosol ar bnawn Iau yn ystod y flwyddyn dan ofal un o'r athrawon.
Bu tîm yr ysgol yn cystadlu'n llwyddiannus mewn amrywiol ornestau megis yr un leol i Fwcle/Wyddgrug a'r Urdd yn rhanbarthol.
Rygbi - Cynhaliwyd clwb dan ofal dau o athrawon yr ysgol ar bnawn Iau. Eleni eto, bu tîm yr ysgol yn cystadlu'n frwd mewn twrnamentau lleol, Campau'r Ddraig a'r Urdd yn ystod y flwyddyn ynghyd â gŵyl rygbi benodol.
Rownderi - Mwynhaodd disgyblion hynaf yr ysgol hyfforddiant yn y maes hwn yn ystod misoedd yr haf. Yn anffodus, oherwydd anwadalwch y tywydd, ni fu'n bosib cynnal twrnament yr Ysgolion Cymraeg ar gae Ysgol Glanrafon.
Nofio - Bu dosbarthiadau o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn derbyn hyfforddiant nofio yn y Ganolfan Chwaraeon yn ystod y flwyddyn. Bu tîm o'r ysgol yn cystadlu yng ngala nofio rhanbarthol yr Urdd a llwyddodd rhai o'n cystadleuwyr i fynd ymlaen i rownd derfynol yr Urdd yng Nghaerdydd ddiwedd Ionawr.
Mabolgampau – Bu'r tywydd yn eithriadol a ffafriol ar gyfer rhain oll a llwyddwyd i gynnal diwrnod o fabolgampau yn yr ysgol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 1 – 6 a bore o weithgareddau ar gyfer disgyblion Uned y Blynyddoedd Cynnar. Bu tîm o'r ysgol hefyd yn cystadlu ym mabolgampau blynyddol yr Urdd cyn yr haf.
Gymnasteg - Aeth grŵp o ddisgyblion i gymryd rhan mewn gŵyl gymnasteg ar gyfer ysgolion Cymraeg y sir, a chafwyd cynrychiolaeth yng nghystadleuaeth Rhanbarthol yr Urdd. Fel rhan o weithgareddau noddedig, daeth capten tîm gymnasteg Cymru i gynnal sesiynau ac arddangosfa i holl ddisgyblion yr ysgol.
Tenis – Cynhaliwyd hyfforddiant ar gyfer disgyblion yr Uned dan 7 yn ystod sesiynau wythnosol.
Clybiau chwaraeon - Darperir amrediad eang o glybiau chwaraeon ar gyfer gwahanol oedrannau o fewn yr ysgol yn rheolaidd. Eleni eto, cynhaliwyd Clybiau Saethyddiaeth a Jiwdo Ben Bore cyn oriau ysgol.
Sicrheir fod pob plentyn yn derbyn dwy wers Addysg Gorfforol bob wythnos, gyda'r cyfan wedi'i amserlennu'n briodol i sicrhau trosraniad cywir ar gyfer y gwahanol weithgareddau.

12. POLISIAU'R YSGOL.
Addasir y polisiau cwricwlaidd a rheolaethol yn gyson er mwyn sicrhau eu cyfoesedd, ac fe'u cadarnheir gan y Corff Llywodraethol yn unol â'r rhaglen adolygu a ddarperir. Mae copi ohonynt ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg yn yr ysgol ar ôl gwneud trefniadau o leiaf dridiau ymlaen llaw. Mae copi llawn o weithdrefnau codi cŵyn yr ysgol ar gael i unrhyw un sy'n dymuno derbyn copi ohono trwy gysylltu â'r ysgol ymlaen llaw.

13. TREFNIADAETH Y CWRICWLWM.
Ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 3-11 oed yw Ysgol Glanrafon. Mae'r rhai 3-7 oed yn ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen, lle y gwelir y Meithrin a'r Derbyn yn cyd-weithio fel Uned y Blynyddoedd Cynnar a disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn gweithio fel Uned dan 7.

Mae'r disgyblion yn trosglwyddo i Gyfnod Allweddol 2 yn saith oed. Yma eto, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 a disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn cyd-weithio'n agos. Golyga hyn bod cyd gynllunio manwl a chyson yn digwydd rhwng staff addysgu y blynyddoedd dysgu.
Mae gweithredu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn statudol yn holl ysgolion Cymru ar gyfer pob disgybl dan 7 oed. Sylfeinir y cwricwlwm yn y Cyfnod Sylfaen ar feysydd Llythrennedd, Rhifedd, Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r byd, Datblygiad Corfforol, Datblygiad Creadigol a Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth ynghyd ag Addysg Grefyddol. Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau'r disgyblion trwy amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau ysgogol wedi'u seilio ar thêmau.
Yng Nghyfnod Allweddol 2, caiff holl bynciau'r cwricwlwm – Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Hanes, Daearyddiaeth, Dylunio a Thechnoleg, Addysg Gorfforol, Cerddoriaeth ac Addysg Grefyddol eu haddysgu i'r disgyblion gyda'r canran priodol o amser wedi'i ddynodi i bob pwnc yn unol â'r gofynion statudol.
Plethir y Fframwaith Llythrennedd, Rhifedd a Digidol i mewn i weithgareddau'r cwricwlwm. Caiff disgyblion 7 ac 11 oed eu hasesu yn y pynciau craidd -Llythrennedd, Rhifedd a Phersonol a Chymdeithasol yn y Cyfnod Sylfaen, ac mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2. Caiff disgyblion Blynyddoedd 2-6 eu profi mewn llythrennedd a rhifedd yn y profion statudol ym mis Mai yn flynyddol.

14. <u>ADRODDIAD ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL 2017-2018</u>

O fewn y ddau ddiwrnod a hanner sydd wedi'i ddynodi ar gyfer ADY, llwyddwyd eleni eto i gynnal arolygon mewnol, asesiadau a chyfarfodydd gydag asiantaethau allanol. Cafodd disgyblion o Flwyddyn 1 i 6 gymorth (mewn grwpiau bach) gan yr ALNCo gyda'u llythrennedd mewn stafell ddynodedig yng nghorff yr ysgol.
Digwyddodd yr addysgu dros ddau ddiwrnod trwy addysgu grwpiau, a hanner diwrnod o weinyddu/asesu/monitro. Yn y sesiynau monitro, cafwyd cyfle i edrych ar sut mae'r gwahanol dargedau sy'n cael eu llunio i wahanol ddisgyblion gan asiantaethau allanol, yn gweithio a'u plethu at ein targedau ni, fel ysgol. Cafwyd chwe chyfarfod grŵp o ALNCOs ysgolion mawr Yr Wyddgrug gyda seicolegydd addysg – un bob hanner tymor, i greu strategaethau/ffordd ymlaen ar gyfer un neu ddau disgybl penodedig o bob ysgol bob tro. Defnyddiwyd argymhellion y grŵp yma fel cynllun gweithredu gan y Seicolegydd Addysg. Cafwyd sawl cyfarfod blynyddol ac achlysurol am ddisgyblion yn ystod y flwyddyn gydag asiantaethau allanol a rhieni. Cafodd pob rhiant wahoddiad i drafod targedau penodol eu plentyn gyda'r athro/awes dosbarth i roi mewnbwn i'r Rhaglenni Addysg Unigol.
Yn ogystal â hyn, cafwyd arolwg mewnol o'r holl ddisgyblion sydd ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn lle roedd cyfle i'r athrawon dosbarth drafod y disgyblion gyda'r ALNCo, i dynnu rhai o'r gofrestr a chynnwys rhai eraill o'r newydd i dderbyn cefnogaeth.
Ar ddechrau'r flwyddyn addysgol, paratôdd yr ALNCo nodiadau ar bob disgybl sydd ar gofrestr ADY yr ysgol i'w rhannu gyda'r athrawon dosbarth yn ogystal ag athrawon llanw. Mynychodd yr ALNCo nifer o gyfarfodydd buddiol yn ystod y flwyddyn.

15. <u>DARPARIAETH AR GYFER ANGHENION PENODOL.</u>

Darperir yn briodol ar gyfer pob plentyn yn ddiwahan yn yr ysgol hon. Ni wahaniaethir ar sail lliw, iaith, anabledd na chefndir ethnig neu gymdeithasol. Caiff pob disgybl, waeth beth fo'i allu ef/hi yr un cyfleoedd i ddatblygu i'w llawn potensial. Darperir yn wahaniaethol ar gyfer disgyblion yn unol â'u galluoedd o fewn y dosbarthiadau. Mae Cynllun Hygyrchedd cyfredol ar gael gan yr ysgol, ac mae'r adeilad yn hygyrch ar gyfer cadeiriau olwyn, a cheir dau doiled penodedig ar gyfer yr anabl yn yr ysgol.

16. <u>DEFNYDD O'R GYMRAEG YN YR YSGOL.</u>

Ysgol benodedig Gymraeg yw Ysgol Glanrafon – yn un o bump ysgol gynradd ac un uwchradd Gymraeg yn Sir y Fflint. Y Gymraeg yw iaith cyfathrebu ac addysgu'r ysgol hon ac erbyn y bydd y disgyblion yn gadael yr ysgol, byddant oll yn gwbl ddwyieithog ac yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Enillodd yr ysgol statws Arian y Siarter Iaith yn ystod y flwyddyn addysgol hon.

17. <u>DARPARIAETH CYFLEUSTERAU TOILEDAU'R YSGOL</u>

Caiff holl flociau toiledau'r ysgol eu glanhau yn ddyddiol. Bydd safon y glanweithdra yn cael ei fonitro'n gyson er mwyn sicrhau bod y safon yn cael ei gynnal. Oherwydd y gwaith a wnaethpwyd dros y blynyddoedd, mae holl flociau toiledau'r ysgol bellach wedi'u hadnewyddu.

GOVERNING BODY'S ANNUAL REPORT TO PARENTS 2017 - 2018

It is with pleasure that the Governors' Annual Report for the 2017-2018 academic year is presented for your kind attention, hoping that you will find its content useful and interesting. As a result of the Standards and Organisation of Schools Act, operational from May 4th. 2013, it is no longer an obligation for Governing Bodies to hold an annual meeting unless 10% of the whole school's parents express an interest to have a meeting to discuss any matter regarding the school. Contact the school by Monday, November 12th. please if you wish to declare an interest in having a meeting.

1. OFFICIALS.

The clerk to the Governing Body is Gareth Watson. The chairperson is Vanessa Leach and the vice chairperson is to be appointed. If you need to contact any of the officials at any time, this should be done via the school only by means of a letter or phone call. (01352 700384)

2. LIST OF GOVERNORS.

See Appendix A

3. EXPENDITURE OF MONEY RECEIVED FROM THE LOCAL EDUCATION AUTHORITY.

See Appendix B(a)

SEG/PDG GRANT.

See Appendix B(b) for the 2017-2018 financial year's SEG/PDG Expenditure.
The only expenditure for the year was a honorarium of £200 for the clerk for 2017-2018.
As well as the annual budget for the school (see Appendix B(a) for the breakdown), the Friends of the School committee made a substantial contribution by purchasing additional thechnological equipment and buying dictionaries for Year 6 pupils. The committee is thanked for their generosity at all times.
Income from the Morning and After School clubs was used to pay for a variety of additional equipment that the school's annual budget is not sufficient to pay for.

4. 2017 ANNUAL MEETING.

No meeting was held to discuss the 2016-2017 report as no parent had expressed a desire to have one.

5. SCHOOL PROSPECTUS.

The prospectus was reviewed for 2017-2018 in accordance with statutory legislation, and copies of the current prospectus is available in school at all times.

6. LIST OF TERM DATES AND SCHOOL SESSIONS.

See Appendix C.

7. LINKS WITH THE COMMUNITY.

To follow, is a summary of the school's community links during 2017-2018 –

- *As always, the pupils celebrated noteable Welsh cultural activities such as Owain Glyndŵr's Day, St. Dwynwen's Day and St. David's Day (with a Literary Eisteddfod).*
- *Commemorate T. Llew Jones and Roald Dahl Days and World Book Day.*
- *A variety of activities associated with the Language Charter were held during the year – such as Sut mae?/Shw mae? Day, Wales Music Day disco and many interesting activities in association with the Cŵl Cymru Week when each teaching department concentrated on various aspects of Welsh life and culture as well as The Language Race.*
- *Parents were invited to the Early Years Unit's Harvest Thanksgiving service in the school hall, and Mrs Nesta Gibson came to address the Years 1-6 pupils in their service in Bethesda Chapel in the afternoon. Members of the Chapel's Afternoon Society attended this service.*
- *Parents joined us for all the pupils' Christmas presentations.The bad weather affected the Christmas activities, but with adaptations, we were able to continue with the activities. The Barti Ddu show performed by Key Stage 2 pupils was postponed until January.*
- *The school was represented at the Mold Welsh Societies Christmas service at Bethesda Chapel. Pupils sang at the turning on of the Mold Christmas lights ceremony and at the Bwthyn home for the elderly.*
- *Throughout the year, the pupils participated widely in Urdd activities locally and nationally by visiting the various residential centres,taking part in a variety of competitions and the Eisteddfod. The school was represented in six competitions in the Urdd National Eisteddfod held on the Royal Welsh showground at the end of May.*
- *A large number of our pupils competed at Treuddyn Eisteddfod,with much success.*
- *Year 4 pupils enjoyed a performance by the Welsh National Orchestra in Llandudno, and representatives from the county's instrumental peripatetic staff came to give a performance to the key Stage 2 pupils.*
- *The pupils have benefited from visits by guest speakers, various workshops, visits to places of interest both locally and wider areas, and dramatic productions which have enrichened their experiences during the year.*
- *Parents were invited to join us in the Year 6 Farewell event.*
- *The school was very active in collecting money towards various charities and worthy causes during the year, which are as follows – McMillan Nurses Coffee Morning - £454, Children in Need - £560, North East Wales Search and Rescue - £911, Easter chicks for McMillan Nurses - £330, Read to Feed - £1,214. Total = £3,499. Everyone is thanked for their generosity at all times.*
- *Aled Huws, from Radio Cymru, called at the school during his Bicycle Run around Wales to raise awareness and money for Children in Need.*
- *Representtatives from the N.S.P.C.C. charity visited school to address all the school's pupils and to lead workshops with K.S. 2 pupils.*
- *School was successful in attainng a grant form the Welsh Arts Council to enable us to develop an Arts project, and Manon Elis Jones came on a weekly basis to work with Year 2 pupils on the project based on the Local Area. The parents of those pupils were invited to see the work during a social afternoon in school.*

- *The school has a close link with the county's other Welsh medium schools, including Maes Garmon. During the year, the school continued to work collaberatively with Ysgol Bryn Tabor, especially so in professional development activities.*
- *The school has a close relationship, and good communication with the local police, and the school's police liaison officer visits the school on a termly basis to address the Years 2, 4 and 6 pupils.*
- *The school was used by Bethesda and Ebenezer Chapels, North Wales Educational Consortium (GwE), Mudiad Ysgolion Meithrin and the local Urdd Eisteddfod committees during the year.*
- *We contribute on a monthly basis to Papur Fama, the Welsh community newspaper and regular references are made to the school in the local English medium media.*
- *The school has a very good working relationship with the various educational agencies within the county as well as the GwE consortium.*
- *Members of the School's Council visited the Council Chamber and were given an outline of the Council's work by the County chairman.*
- *Year 5 pupils were involved in a Young People's Business Venture this year.*
- *During the year, various classes/departments went on educational outings to destinations such as Blitz Hill, Space Port and Beatles World, Park Hall Farm, Liverpool and the Sea Life Zoo in Rhyl.*
- *A Scholastics English Book Fair was held at the end of the Autumn Term, which generated more than £500 worth of books for school.*
- *Various clubs, especially sporting activities, were held before and after school hours during the year.Theatr Clwyd generously offered to organise a Drama Club for years 3 and 4 pupils.*
- *During the year, school was awarded Stage 5 of the Healthy Schools Award, and this was presented at a Celebration Event at the end of the year.*
- *An European Week was held in school when the various classes concentrated on different European countries, and the pupils had an opportunity to dress up as a representative of the country studied by them during the week.*
- *Representatives of Agathos have held services with the Under 7's pupils regularly and organised the Ribidires Club weekly for Year 2 pupils during the year.*

8. *STATUTORY NATIONAL ASSESSMENT FOR FOUNDATION PHASE AND KEY STAGE 2 – SUMMER 2018*

See Appendix CH

9. *TARGETS SET BY SCHOOL FOR 2018 & 2019 RESULTS.*

See Appendix D

10. *ATTENDANCE INFORMATION FOR 2017-2018.*

See Appendix DD.

11. *GAMES AND SPORTING ACTIVITIES.*

Football*- Football clubs were held after school hours for pupils of both Key Stages on Monday and Thursday afternoons.*

Teams from school competed in various competitions during the year, including the Urdd tournament for boys and girls, Mold/Buckley league and Tom Roberts and Ron Bishop competitions. As part of the Cymru Cŵl week, teams from school participated in a tournament for the Flintshire Welsh schools.

Netball *- An after school club was held on Thursday afternoons throughout the year organised by one of the teachers*

The school's team participated in various tournaments such as the local Mold/Buckley and the regional Urdd competitions.

Rugby *- A club organised by two of the teachers was held on Thursday afternoons. Again this year, the school team competed enthusiastically in the local tournaments and Dragon Sports and Urdd competitions as well as in a specific rugby festival.*

Rounders *- The school's older pupils enjoyed training in this sport during the summer months. Unfortunately, due to the weather conditions, it was not possible to hold the the Welsh schools tournament here on Ysgol Glanrafon's field at the end of the Summer Term.*

Swimming *- Classes of Key Stage 2 pupils received swimming lessons in the town's Sports Centre during the year. A team from school participated in the county Urdd gala and some competitors were successful in going forward to the final in Cardiff held at the end of January.*

Athletics *– The weather was exceptionally favourable when a day of athletics was held for Years 1-6 pupils and a morning of sporting activities for the Early Years Unit's pupils. A team from school competed at the Urdd competition before the summer.*

Gymnastics *- A group of pupils participated in a gymnastics festival for the county's Welsh medium schools and we were represented at the Regional Urdd competition. As part of a sponsored activity, the Welsh gymnastics team captain held sessions and gave a demonstration to all of the school's pupils.*

Tennis *– Weekly training sessions were held for Year 2 pupils during the Summer Term.*

Sports Clubs *- A variety of sports clubs for pupil of various ages are regularly held in school. Again this year, an Archery and Judo Club was held before school.*

It is ensured that every child participates in two Physical Education lessons every week, with all lessons being appropriately time-tabled for the various activities.

12. *SCHOOL POLICIES.*

Curricular and managerial policies are regularly modified and ratified by the Governing Body as required. Copies of the policies are available at school if requested, requiring at least three days notice. A full copy of the Complaints Procedure is available to anyone who contacts the school again 3 days before hand to ask for a copy.

13. *CURRICULUM ORGANISATION.*

Ysgol Glanrafon is a designated Welsh medium primary school for 3-11 year old pupils. The 3-7 year old pupils are in the school's Foundation Phase, where the Nursery and Reception pupils work as an Early Years Unit and Years 1 & 2 pupils who work as an Under 7's Unit.

The pupils transfer to Key Stage 2 when they are 7 years old. Here again Years 3 & 4 pupils and Years 5 & 6 pupils work very closely. This means that detailed and constant planning occurs between the staff of all the teaching years.

The implementation of the Foundation Phase is statutory for every child under 7 years of age in Wales. The Foundation Phase curriculum is based on Literacy, Numeracy, Knowledge and Understanding of the world, Physical development, Creative development and Personal, Social, Welfare and Diversity and Religious Education. Emphasis is placed on developing the pupils' skills by means of motivating experiences and activities based on various themes.
In Key Stage 2, all of the curriculum subjects – Welsh, English, Mathematics, Science, Information Technology, History, Geography, Design and Technology, Physical Education, Music and Religious Education are taught ,with the allocated times for each subject meeting the statutory requirements.
The statutory Literacy, Numeracy and Digital Frameworks are intergrated into the curricular activities.
7 and 11 year old pupils are assessed in the core areas – Literacy, Numeracy and Personal and Social skills for the Foundation Phase and in Welsh, English, Mathematics and Science at the end of Key Stage 2. Years 2 – 6 pupils are assessed annually in the statutory reading and numeracy tests.

14. ADDITIONAL EDUCATIONAL NEEDS REPORT 2017-2018
Within the two and half days days allocated for ALN, we succeeded again this year to have internal reviews, assessments and meetings with external agencies. Pupils from Years 1 – 6 were supported (within small groups) for their literacy skills by the ALNCo in the designated room within the school.
The teaching took place over two days of teaching groups, and half a day administration/assessing/monitoring. In the monitoring sessions, there was an opportunity to see how the various targets set for individual pupils by external agencies work and interweave into our targets, as a school.
Six meetings of the large Mold schools were held with the educational psychologist – one per half term, to create strategies/way forward for one or two children from every school each time. The suggestions given at these meetings were used as an action plan by the Educational Psychologist. A number of annual and occasional meetings regarding pupils were held during the year with external agencies and parents. Each parent had an opportunity to discuss their child's specific targets with the class teacher and have an input into the Individual Education Programmes.
As well as this, two internal audits of all the pupils on the school's ALN register were held during the year. During these reviews, there was an opportunity for the class teachers to discuss the pupils with the ALNCo, to take some off the register and to include some additional ones to receive support. At the beginning of the academic year, the ALNCo prepared notes on each of those pupils on the ALN register to share with their class teachers and any supply teachers. The ALNCO attended a number of relevant and useful training sessions during the year.

15. *PROVISION FOR SPECIFIC NEEDS.*
Suitable provision is made for all pupils. We do not discriminate on the basis of colour, language, disability or ethnic or social background. All pupils, whatever their ability, are given the same opportunity to develop to their full potential. We offer differential provision according to ability within classes.

A current Accessibility Plan exists at school. The building is accessible for the disabled, and two specific toilets are available for their use.

16. *THE USE OF WELSH IN SCHOOL.*

Ysgol Glanrafon is a designated Welsh medium school – one of five primary and one secondary Welsh schools in Flintshire. The language of communication and teaching in this school is Welsh, and by the time the pupils leave the school at 11 years of age, they are totally billingual, being fluent in both Welsh and English. The school won the Language Charter Silver Award during the year.

17. TOILET FACILITIES.

All of the school's toilet blocks are cleaned on a daily basis. The standard of hygiene is regularly monitored in order to ensure that the standard is maintained. Due to the work carried out over the years, all of the school's toilet blocks have by now been renovated.

(Atodiad/*Appendix* A)

Aelodaeth y Corff Llywodraethol – *Governing Body membership 2017-2018*

Apwyntiwyd/*Appointed.*

Cadeirydd/*Chair.*	Vanessa Leach	11/16	Cynrychiolydd y Rhieni – *Parent representative*
Pennaeth/Head :	Llinos Mary Jones		
	Einir Huws	10/16	Cynrychiolwyr athrawon
	Rhydian Jones	10/15	*Teachers' Representatives*
	Ann Joseph	10/15	Cynrychiolydd staff nad ydynt yn dysgu/*Non teaching staff rep*
	Vanessa Brown	11/16	Cynrychiolydd y Rhieni/
	Laura Edwards	11/16	*Parents' Representatives*
	Steve Brady	11/15	" "
	Nia Ellis	11/17	" "
	Ceri Townsend	11/17	" "
	Richard Knight	06/17	Cymunedol/*Community*
	Gron Morris	01/17	" "
	Mair Searson	11/16	" "
	Marion Antrobus	11/16	" "
	Steve Townley	12/17	A.A.Ll./ *L.E.A*
	Catherine Richards	06/18	A.A.Ll/*L.E.A*
	Gareth Watson		Clerc/*Clerk*

DATGANIAD O FWRIAD YR YSGOL –
THE SCHOOL'S MISSION STATEMENT.

Cyrraedd y safonau uchaf posibl, mewn ysgol weithgar, ofalgar, hapus a Chymreig, lle y dangosir parch at blant a phobl, gan roi iddynt oll gyfle teg i ddatblygu i'w llawn potensial.
Attain the highest possible standards in a hard working, caring and Welsh school, where respect is shown to children and adults, giving everyone a fair chance to devlop to their full potential.

Atodiad/*Appendix* B(a)

287 YSGOL GLANRAFON
Datganiad Ariannol 2017/2018 *Financial out turn*

Pennawd Cyllideb *Budget heading*	**Cyllideb/ *Budget* 2017-2018**	**Gwariant/ *Expenditure* 2017-2018**	**Gwahaniaeth/ Difference +/- 2017-2018**
Balans o/*Balance from* 2016/2017	25,014		25,014
Cyflogedig *Employees*	841,745	1,109,012	-267,267
Safle/*Premises*	79,656	55,425	+24,231
Cyfanswm cludiant/*Total transport costs*	-	362	-362
Cyflenwadau/ *Supplies*	47,130	37,647	+9,483
Cytundebau Lefel Gwasanaeth/*Service Level agreements*	39,711	45,954	-6,243
Clwb Brecwast am ddim/*Free Breakfast Club*	9,484		9,484
Uned/Adnawdd ADY – *ALN Resource Unit*	88,864	88,864	-
Cyfanswm incwm/*Total income*	-	151,230	151,230
CYFANSWM *TOTAL* 2015/2016	**1,131,604**	**1,097,170**	**34,434**

Atodiad/*Appendix* B (b)

GWARIANT GRANTIAU GAD/GEY AM 2017 – 2018 - *SEG/PDG SPENDING BUDGET.*

CYFANSWM YR ARIAN A DDERBYNIWYD/*TOTAL AMOUNT OF GRANTS RECEIVED* = £16,800 (GAD - *PDG*) £18,732 (GEY- *SEG*) CYFANSWM - *TOTAL* = £35,532

BLAENORIAETH/*PRIORITY* 1	£1,000 i dalu am waith cyflenwol/*for supply cover costs.* £1,000 i ariannu ymwelwyr/*to pay for atendees.* £175 am lungopio ychwanegol/*additional photocopying.* CYFANSWM/*TOTAL* = £2,175
BLAENORIAETH/*PRIORITY* 2	£11,750 i dalu am weinyddes llawn amser/*for full time classroom assistant.* £8,650 am 2 weinyddes rhan amser/*2 part time assistants.* £4,300 am weinyddes i weithio ar raglenni penodol/*classroom assistant to work on specific programs* £1,500 am lyfrau darllen ychwanegol/*additional reading books* £200 costau cyflenwol/*supply work* CYFANSWM/*TOTAL* = £26,400
BLAENORIAETH 3	£2,000 ar gyfer cynllun SAFMED/*scheme* £1,750 am adnoddau ychwanegol/*for additional resources* £100 am waith cyflenwol/*for supply cover.* £250 am bapur a llun gopio ychwanegol/*additional paper & photocopying.* CYFANSWM/*TOTAL* = £4,100
BLAENORIAETH 4	£1,000 hyfforddiant Meddylfryd Tŵf/*Mindfulness training.* £1,200 am gostau cyflenwi/*supply cost* £700 am adnoddau ychwanegol/*additional resources.* CYFANSWM/*TOTAL* = £2,900
BLAENORIAETH 5	£55 costau llungopio/*photocopying* £1,600 am gostau cyflenwi/*supply cover* CYFANSWM/*TOTAL* = £1,655

CYFANSWM Y GWARIANT/*TOTAL SPEND* = £34,430

GWARIANT GAD/*PDG EXPENDITURE* = £19,600

GWARIANT GEY/*SEG EXPENDITURE* = £18,830

Atodiad/*Appendix* C.

DYDDIADAU TYMHORAU 2018 – 2019 *TERM DATES.*

Tymor yr Hydref – *Autumn Term* 2018.

03.09.18	Diwrnod hyfforddiant mewn swydd – *In service training day.*
04.09.18	Ysgol yn ail agor – *School re-opens.*
21.09.18	Diwrnod hyfforddiant mewn swydd – *In service training day.*
26.10.18	Ysgol yn cau ar gyfer y gwyliau hanner tymor – *School closes for the half term holiday.*
05.11.18	Ysgol yn ail agor wedi gwyliau'r hanner tymor – *School re-opens after the half term holiday.*
21.12.18	Ysgol yn cau am wyliau'r Nadolig – *School closes for the Christmas Holiday*

Tymor y Gwanwyn – *Spring Term* 2019

07.01.19	Diwrnod hyfforddiant mewn swydd – *In service training day.*
08.01.19	Ysgol yn ail agor – *School re-opens.*
22.02.19	Ysgol yn cau am wyliau hanner tymor – *School closes for the half term holiday.*
04.03.19	Ysgol yn ail agor ar ôl y gwyliau hanner tymor – *School re-opens after the half term holiday.*
12.04.19	Ysgol yn cau am wyliau'r Pasg – *School closes for the Easter holiday.*

Tymor yr Haf – *Summer Term* 2019

29.04.19	Diwrnod hyfforddiant mewn swydd – *In service training day.*
30.04.19	Ysgol yn ail agor – *School re-opens*
06.05.19	Gŵyl y Banc – gwyliau undydd – *Spring Bank holiday.*
25.05.19	Ysgol yn cau am wyliau hanner tymor – *School closes for the half term holiday.*
03.06.19	Ysgol yn ail agor wedi gwyliau'r hanner tymor – *School re-opens following the half term holiday.*
19.07.19	Ysgol yn cau am wyliau'r haf – *School closes for the summer Holiday.*
22.07.19	Diwrnod hyfforddiant mewn swydd – *In service training day.*

SESIYNAU' R YSGOL – *SCHOOL SESSIONS.*

8.50	Ysgol yn dechrau – *School starts.*
10.15-10.30	Egwyl chwarae – Uned dan 7 – *Under 7's play time.*
10.30-10.45	Egwyl chwarae – Cyfnod Allweddol 2 – *Key Stage 2 play time.*
12 – 1 p.m.	Amser cinio – *Lunch hour.*
2-2.10 p.m.	Egwyl – Cyfnod Sylfaen - *Break – Foundation Phase.*
2.10-2.20 p.m.	Egwyl – Cyfnod Allweddol 2 – *Break – Key Stage 2.*
3 p.m.	Ysgol yn gorffen – Cyf Sylfaen – *School finishes – Foundation Phase.*
3.15 p.m.	Ysgol yn gorffen – C.A. 2 – *School finishes – K.S. 2*

Atodiad/*Appendix* CH

Canlyniadau Asesiadau Diwedd Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 1 a 2 – Haf 2018
End of Foundation Phase and Key Stage 2 Assessment results - Summer 2018

a)Diwedd Cyfnod Sylfaen –*End of Foundation Phase* - 37 o ddisgyblion/*pupils*

Mae Deilliant 4 yn cyfateb yn fras i Lefel 1, Deilliant 5 yn cyfateb yn fras i Lefel 2 a Deilliant 6 yn cyfateb yn fras i Lefel 3 y cwricwlwm cenedlaethol.

Outcome 4 is vaguely equivalent to Level 1, Outcome 5 is vaguely equivalent to Level 2 and Outcome 6 being vaguely equivalent to Level 3 of the national curriculum.

	Iaith Ysgol/ *School*	*Lang* Cymru/ *Wales*	Math. Ysgol/ *School*	*Math* Cymru/ *Wales*	Pers aChymd Ysgol/ *School*	*Pers & Soc.* Cymru/ *Wales*
Deill/*Outcome* 4	**10.8%**	**7.7%**	**8.1%**	**7.2%**	**0.0%**	**3.1%**
Deill*Out* 5	**56.8%**	**52.8%**	**70.3%**	**51.5%**	**10.8%**	**33.3%**
Deill/*Out* 6	**32.4%**	**38.0%**	**21.6%**	**38.6%**	**89.2%**	**61.2%**
Deill/*Outcome 5+*	**89.2%**	**90.8%**	**91.9%**	**90.1%**	**100%**	**94.5%**

Dangosydd y Cyfnod Sylfaen/*Foundation Phase Indicator*

Ysgol/School = 86.5% Cymru/*Wales* = 87.3%

b) Cyfnod Allweddol 2 - *Key Stage 2* - 42 o ddisgyblion/*pupils.*

	CYM Ysgol/ *School*	*WELSH* Cymru/ *Wales*	SAES Ysgol/ *School*	*ENG.* Cymru/ *Wales*	MATH Ysgol/ *School*	*MATH* Cymru/ *Wales*	GWYDD Ysgol/ *School*	*SCI* Cymru/ *Wales*
Lefel/*Level* 2	**0.0%**	**1.1%**	**0.0%**	**1.4%**	**2.4%**	**1.2%**	**0.0%**	**1.1%**
Lefel/*Level* 3	**7.1%**	**6.8%**	**7.1%**	**6.3%**	**7.1%**	**6.0%**	**7.1%**	**5.5%**
Lefel/*Level* 4	**40.5%**	**50.1%**	**42.9%**	**46.4%**	**54.8%**	**44.6%**	**38.1%**	**45.8%**
Lefel/*Level* 5	**52.4%**	**39.7%**	**50.0%**	**43.0%**	**33.3%**	**45.3%**	**54.8%**	**46.2%**
Lefel/*Level* 6	**0.0%**	**1.8%**	**0.0%**	**1.7%**	**2.4%**	**1.8%**		**0.2%**
Lefel/*Level*4+	**92.9%**	**91.6%**	**92.9%**	**91.1%**	**90.5%**	**91.6%**	**92.9%**	**92.2%**

Dangosydd Pwnc Craidd /*Core Subject Indicator*

Ysgol/*School* = 90.5% Cymru/*Wales* = 89.5%

Atodiad/*Appendix* D

Gwybodaeth am y targedau a osodwyd gan yr ysgol ar gyfer 2018 a 2019.
Information regarding targets set by the school for 2018 and 2019.

Isod ceir y cyfartaleddau o ddisgyblion a dargedir i gyrraedd Lefel 4+ erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 2 a Deilliant 5+ erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2018 a 2019.
Below are the percentages of pupils targeted to attain Level 4+ by the end of Key Stage 2 and Outcome 5+ at the end of the Foundation Phase in 2018 and 2019.

2018

Cyfnod Allweddol/*key Stage 2*

Nifer y disgyblion/*Number of pupils:*	**39** (prif lif – *mainstream)*
Cymraeg/*Welsh*	*100%*
Saesneg/*English*	100%
Mathemateg/*Mathematics*	94.9%
Gwyddoniaeth/*Science*	*100%*
Dangosydd pwnc craidd/*Core subject indicator:*	94.9%

Cyfnod Sylfaen/*Foundation Phase.*

Nifer y disgyblion/*Number of pupils:*	**37**
Llythrennedd/*Literacy*	86.5%
Rhifedd/*Numeracy*	91.9%
Personol a Chymdeithasol/*Personal & Soc.*	100%
Dangosydd y Cyfnod Sylfaen/*Found. Phase Indicator*	86.5%

2019 (i'w hadolygu – *to be reviewed)*

Cyfnod Allweddol 2/*Key Stage 2*

Nifer y disgyblion/*Number of pupils:*	**29** (prif lif – *mainstream)*
Cymraeg/*Welsh*	82.8%
Saesneg/*English*	89.7%
Mathemateg/*Mathematics*	89.7%
Gwyddoniaeth/*Science*	86.2%
Dangosydd Pwnc Craidd/*Core Subject Indicator*	86.2%

Cyfnod Sylfaen/*Foundation Phase*

Nifer y disgyblion/*Number of pupils:*	**43**
Llythrennedd/*Literacy*	88.4%
Rhifedd/*Numeracy*	*83.7%*
Personol a Chymdeithasol/*Personal & Social*	100%
Dangosydd y Cyfnod Sylfaen/*Found.Phase Indicator*	79.1%

Atodiad/*Appendix* DD(a)

Gwybodaeth am bresenoldeb 2017 -2018
Attendance Information 2017 – 2018

Cyfartaledd presenoldeb yn ystod 2017-18
Average attendance during the academic year 2017-18

Blwyddyn/*Year*	Tymor/*Term* 1	Tymor/*Term* 2	Tymor/*Term* 3
Blwyddyn/*Yr* 1	96.2%	97.1%	96.3%
Blwyddyn/*Yr* 2	96.2%	95.9%	94.9%
Blwyddyn/*Yr* 3	97.4%	97.2%	97.3%
Blwyddyn/*Yr* 4	97.7%	96.0%	95.7%
Blwyddyn/*Yr* 5	95.4%	93.9%	94.4%
Blwyddyn/*Yr* 6	96.4%	97.8%	95.4%
Cyfartaledd tymhorol yr ysgol - *Average by term*			
CYFANSWM/*TOTAL*	96.6%	96.5%	95.8%
Cyfartaledd presenoldeb yr ysgol i gyd -cyfanswm *School's annual average attendance – total* 96.3%			

Canrannau yr absenoldebau am 2017-2018
Percentage of absences for 2017-2018

Absenodebau awdurdodedig *Authorised absences*			Absenoldebau di-awdurdod *Unauthorised absences*		
tymor/ *term 1*	tymor/ *term 2*	tymor/ *term 3*	tymor/ *term 1*	tymor/ *term 2*	tymor/ *term 3*
3.3%	3.4%	4.0%	0.1%	0.2%	0.3%

Mae hi'n hanfodol ein bod yn cael gwybodaeth am unrhyw absenoldeb o eiddo'ch plentyn er mwyn dileu unrhyw absenoldeb di-awdurdod.
It's essential that we have information regarding your child's absence at all times to ensure that there are no unauthorised absences.

Targed presenoldeb yr ysgol ar gyfer 2018/2019
School attendance target for 2018/2019 **= 96.5%**

Targed ar gyfer absenoldebau di-awdurdod 2018/2019
Target for unauthorized absence for 2018/2019 **= 0.15%**

Atodiad/*Appendix* DD(b)

DATA PRESENOLDEB YR YSGOL GYFAN 2017-2018 (CANRANNAU %)
WHOLE SCHOOL ATTENDANCE DATA for 2017-2018 (PERCENTAGES - %)

Y targed presenoldeb ar gyfer 2017/18 oedd 96.0%. Gwir bresenoldeb am y cyfnod oedd 96.3%
Mae ein canran presenoldeb yn uwch na'r ysgolion sydd o fewn ein teulu ysgol, yn uwch na chymedr ysgolion Sir y Fflint ac yn uwch na chymedr ysgolion Cymru gyfan.
Mae'r ffaith bod rhieni yn mynd a'u plant ar wyliau yn ystod tymor yr ysgol yn cael ei adlewyrchu yn y canrannau yma.

The attendance target for 2017/18 was 96.0 %. Actual attendance for the period was 96.3 % Our attendance percentage is higher than schools in our family, higher than the Flintshire schools average and higher than the all Wales schools average.
The fact that parents take their children on holiday during the school term is reflected in these percentages

	PRESENOLDEB- *ATTENDANCE*	ABSENOLDEBAU ANAWDURDODEDIG *–UNAUTHORISED ABSENCE*	ABSENOLDEBAU AWDURDODEDIG – *AUTHORISED ABSENCE*
MEDI/*SEPTEMBER* 2017 I/*TO* GORFFENNAF*JULY* 2018	96.3%	0.2%	3.6%

TARGEDAU PRESENOLDEB – *ATTENDANCE TARGETS (2017-2020)*
Dyma'r targedau ar gyfer y dair mlynedd (mewn %) *These are the targets for the three year period (in %)*

Targedau Presenoldeb *Attendance Targets*	2017-2018	2018-2019	2019-2020
	96.0%	96.5%	96.6%

TARGEDAU I LEIHAU ABSENOLDEBAU ANAWDURDODEDIG -
TARGETS TO REDUCE UNAUTHORISED ATTENDANCE

Dyma'r targedau ar gyfer y dair mlynedd (mewn %) *These are the targets for the three year period (in %)*

Absenoldebau Anawdurdodedig *Unauthorised Attendance*	2017-18	2018-19	2019-20
	0.15%	0.15%	0.1%